Fel arfer, rhaid i bobl ifanc ysgrifennu Datganiad Personol cyn mynd i Flwyddyn 12 neu cyn mynd i goleg neu i brifysgol. Dyma **ran** o Ddatganiad Personol Sam.

## Datganiad Personol

Rwyf wedi treulio'r pum mlynedd diwethaf yn Ysgol Abermawr. Ar hyn o bryd, rwyf yn ddisgybl ym Mlwyddyn 11 ac rwyf yn astudio ar gyfer fy arholiadau TGAU. Gobeithiaf gael gradd uchel mewn daearyddiaeth, Eidaleg a Ffrangeg oherwydd hoffwn fynd i'r chweched dosbarth i'w hastudio y flwyddyn nesaf ac yna mynd ymlaen i brifysgol i astudio ieithoedd Ewropeaidd. Ar wahân i Eidaleg, daearyddiaeth a Ffrangeg, rwyf yn mwynhau Saesneg, mathemateg ac astudiaethau cyfrifiadurol.

Yn yr ysgol, mae gen i lawer o ddiddordebau. Tan yn ddiweddar, rwyf wedi bod yn canu'r ffliwt yn y band hŷn ac wedi bod yn aelod o gôr yr ysgol. Yn ystod Blynyddoedd 7-9, bûm yn aelod o'r tîm pêl-droed a bûm yn aelod o'r tîm tennis o Flwyddyn 7 i Flwyddyn 10, pryd y cefais gyfle i gynrychioli'r ysgol mewn nifer o gemau a thwrnameintiau.

Rwyf wedi mwynhau gweithgareddau'r Fagloriaeth Gymraeg gan eu bod wedi rhoi cyfle i mi ddangos fy sgiliau trefnu, gweithio mewn grŵp, datrys problemau, cynllunio ac adolygu. Yn ystod y gwaith Menter Tîm, roeddwn i'n un o'r grŵp drefnodd y disgo i godi arian i'r Deillion. Roedd hwn yn brofiad da iawn i mi oherwydd roedd rhaid i fi weithio gydag eraill a thrin arian. Rwyf yn mwynhau gweithgareddau y tu allan i'r ysgol hefyd. Rwyf wrth fy modd yn gofalu am fy ngheffylau ac yn eu marchogaeth bob cyfle a gaf. Dengys hyn fy mod yn berson cyfrifol y gellir ymddiried ynddo.

Mae gen i ddiddordeb mewn drama ac rwyf wrth fy modd yn mynd i wylio perfformiadau yn y theatr. Yn ogystal, bûm yn aelod o gwmni drama'r dref pan oeddwn ym Mlynyddoedd 7-9. Cymaint yw fy niddordeb fel y penderfynais ddilyn cwrs OCN (Open College Network) ar ddechrau Blwyddyn 11 er mwyn ennill cymhwyster mewn actio a chanu.

Rwyf yn falch o'r gwaith gwirfoddol rwyf wedi bod yn ei wneud yn flynyddol. Bob blwyddyn, byddaf yn cynorthwyo i drefnu parti i godi arian at Blant Mewn Angen. Yn ogystal, byddaf yn cynorthwyo i lenwi bocsys esgidiau i elusen Operation Christmas Child, sy'n dod â chymaint o hapusrwydd i filoedd o blant ar draws y byd. Y llynedd, casglwyd dros bedwar can punt ar gyfer Plant Mewn Angen ac anfonwyd 107 o focsys esgidiau at blant llai ffodus na ni ar draws y byd. Hon oedd y flwyddyn orau erioed.

Credaf fy mod yn berson sy'n gallu cyfathrebu'n effeithiol ar lafar ac yn ysgrifenedig yn Gymraeg ac yn Saesneg. Dros y blynyddoedd, rwyf wedi cael cyfle i ddatblygu fy sgiliau cyfathrebu trwy fod yn aelod o grwpiau trafod yn ystod y gwersi ac rwyf wedi cael y cyfle i fynegi fy marn ac ymateb i safbwyntiau pobl eraill …